Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Babcock Training**
**3ydd Llawr**
**Arena Rhyngwladol Caerdydd**
**World Trade Centre**
**Heol Mary Ann**
**Caerdydd**
**CF10 2EQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 04/02/2015**

## Cyd-destun

Babcock Training yw un o'r darparwyr dysgu yn y gwaith mwyaf yn y Deyrnas Unedig, a bu ganddynt gontract dysgu yn y gwaith yng Nghymru ers dros 25 mlynedd. Mae'r darparwr yn cyflwyno rhaglenni hyfforddiant ar hyd a lled Cymru. Yng Nghaerdydd y mae swyddfa weinyddol Babcock, gyda'r rhan fwyaf o staff yn gweithio gartref.

Yng Nghymru, mae Babcock Training ar hyn o bryd yn gweithio gyda 460 o gyflogwyr gydag oddeutu 1,047 o ddysgwyr yn dilyn Rhaglenni Prentisiaeth ar lefelau 2, 3 a 4. Mae naw deg chwech o ddysgwyr yn gweithio tuag at gymwysterau Sgiliau Hanfodol yn y Gweithle.

Nid yw'r darparwr yn is-gontractio unrhyw ddarpariaeth i ddarparwyr eraill.

Mae'r darparwr yn cyflwyno'r rhaglenni dysgu yn y gwaith canlynol ar draws Cymru:

- Prentisiaethau Sylfaen;
- Prentisiaethau; a
- Phrentisiaethau Uwch.

Mae'n cynnig y llwybrau hyfforddi canlynol:

- Lletygarwch;
- Hamdden weithgar;
- Adwerthu;
- Rheoli;
- Gwasanaeth Cwsmeriaid; a
- Gweinyddu Busnes.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Da** |

## Perfformiad presennol

At ei gilydd, mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni fframweithiau hyfforddiant arnynt yn debyg i gyfraddau darparwr hyfforddiant eraill. Mae data heb ei gyhoeddi ar gyfer y darparwr yn dangos bod cyfraddau'n gwella. Mae dysgwyr yn dangos cymhwysedd ymarferol da a gwybodaeth dda am theori.

Mae gan ddysgwyr symbyliad a brwdfrydedd tuag at eu hyfforddiant ac mae llawer ohonynt yn awyddus i symud ymlaen i'r lefel nesaf.

Mae ansawdd yr addysgu, yr hyfforddi a'r asesu yn dda. Mae aseswyr yn cynnal asesiadau ac adolygiadau effeithiol, rheolaidd o gynnydd dysgwyr yn eu gweithle. Mae ansawdd y gofal, cymorth ac arweiniad yn dda. Mae dysgwyr yn elwa ar gael perthynas dda â'u haseswyr, sy'n rhoi lefelau priodol o gymorth iddynt.

Mae dysgwyr yn elwa ar gael gweithleoedd o ansawdd da ac adnoddau dysgu ar-lein o safon dda.

Mae rheolwyr y darparwr yn cynnig cyfeiriad strategol effeithiol. Gosodant dargedau clir a chadarn ar gyfer gwella ac mae ganddynt strategaethau a systemau gwella ansawdd da ar waith i fonitro perfformiad presennol. Mae strategaethau a systemau'r darparwr yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau hyfforddiant a chymwysterau eraill. Mae'r strategaethau hyn yn gwella ansawdd ac effeithiolrwydd addysgu, hyfforddi ac asesu.

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r darparwr yn dda oherwydd:

- mae safonau dysgwyr yn gwella;
- mae gan y darparwr weledigaeth glir ar gyfer gwella ansawdd, sy'n effeithio ar safonau dysgwyr;
- mae cyfathrebu effeithiol a chlir ar draws y darparwr a'i bartneriaid allweddol;
- mae graddau da o ymddiriedaeth ar draws staff a phartneriaid allweddol;
- mae lefel boddhad cyflogwyr a dysgwyr yn uchel;
- mae dysgwyr yn dangos cymhwysedd ymarferol da a gwybodaeth dda am theori yn eu gweithle; ac
- mae'r darparwr wedi buddsoddi mewn adnoddau dysgu a hyfforddi ar-lein o ansawdd da.

## Argymhellion

A1 Gwella'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni fframweithiau hyfforddi arnynt

A2 Gwneud yn siŵr bod dysgwyr yn datblygu a gwella'u medrau llythrennedd a rhifedd

A3 Gwneud mwy i hybu a gwella dealltwriaeth dysgwyr o iaith a diwylliant Cymru

A4 Gwneud yn siŵr bod yr holl aseswyr yn marcio gwaith dysgwyr i safon gyson uchel gan gyfeirio at y canllaw marcio

A5 Gwneud yn siŵr bod systemau ansawdd yn cael effaith lawn ar godi safonau cymhwysedd ymarferol dysgwyr a'u gwybodaeth am theori

### Beth sy'n digwydd nesaf?

O ystyried y barnau digonol, bydd yr arolygydd cyswllt yn cynnal ymweliad monitro i asesu cynnydd y darparwr o ran y materion a nodwyd gan yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn 2012-2013, cyflawnodd dysgwyr eu fframweithiau ar gyfradd oedd gerllaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer dysgu yn y gwaith. Mae data heb ei gyhoeddi ar gyfer 2013- 2014 a'r flwyddyn bresennol yn awgrymu bod y safonau hyn yn cael eu cynnal a'u gwella er bod y dirwasgiad wedi cael effaith negyddol ar rai meysydd dysgu, fel y sector adwerthu.

Cyflawnodd dysgwyr ar raglenni hyblyg eu fframweithiau ar gyfraddau uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae nifer y dysgwyr sy'n cwblhau eu rhaglenni'n hwyr wedi cael ei ostwng yn sylweddol.

Mae dysgwyr yn cyflawni cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ar gyfraddau sy'n debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol ac ar lefelau sy'n briodol i'w rhaglen. Mae llawer yn elwa ar anogaeth y darparwr i gwblhau eu cymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru ar lefel uwch na'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer eu fframwaith. Yn 2012- 2013, cwblhaodd dros chwarter o ddysgwyr eu cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ar lefelau uwch na'r lefelau sy'n ofynnol yn ôl eu fframwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr presennol yn gwneud cynnydd da yn eu rhaglenni. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gallu dangos gwybodaeth dda am theori a medrau ymarferol da. Mae asesu cychwynnol da yn eu helpu i ddeall lefelau eu medrau sylfaenol ac maent yn awyddus i wella'u medrau. Gwnânt hyn drwy amrywiaeth o weithgareddau llythrennedd a rhifedd yn ystod eu hyfforddiant. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn deall gofynion eu cynlluniau dysgu unigol (CDUau) ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Mae dysgwyr yn elwa ar adolygiadau ac ymweliadau rheolaidd gan eu haseswyr. Maent yn gweithio'n dda iawn gyda'u goruchwylwyr, eu cyflogwr a'u haseswyr i gyflawni'r targedau y cytunont iddynt.

Mae gwaith ysgrifenedig y rhan fwyaf o ddysgwyr wedi'i gyflwyno'n dda, yn cynnwys ystod dda o dasgau a thystiolaeth portffolio ac yn darparu tystiolaeth o fedrau llythrennedd a rhifedd gwell ar gyfer mwyafrif o ddysgwyr. Fodd bynnag, nid yw gwaith ysgrifenedig dysgwyr bob amser yn cael ei farcio'n effeithiol ac nid yw dysgwyr bob amser yn gwybod beth y mae angen iddynt ei wneud i wella'u perfformiad.

Er gwaethaf cyfleoedd cynyddol i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod eu hyfforddiant, nid yw digon o ddysgwyr yn cynnal a datblygu eu medrau Cymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos medrau cyfathrebu a rhyngbersonol da. Maent yn cymryd rhan yn dda mewn trafodaethau gyda'u haseswyr a'u cyflogwyr ac yn dangos dealltwriaeth dda o rôl eu swydd. Mae llawer o ddysgwyr wedi datblygu eu hyder ac yn barod i fynegi eu barn a'u safbwyntiau'n dda, hyd yn oed pan fydd eu haseswyr a'u cyflogwyr yn gofyn cwestiynau heriol iddynt.

## Lles: Da

Mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu gweithle ac yn cael cymorth da gan eu goruchwylwyr, eu cyflogwyr a'u haseswyr. Gwyddant am y cymorth a'r arweiniad sydd ar gael iddynt ac â phwy i gysylltu os oes ganddynt broblem.

Mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn cyfnod sefydlu trylwyr a chynhwysfawr i'r rhaglen hyfforddi. Dangosant ddealltwriaeth dda o iechyd, diogelwch a lles yn eu gweithle. Mae dysgwyr yn gwybod am bwysigrwydd a manteision ffordd iach o fyw, bwyta'n iach a gwella'u ffitrwydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau eu rhaglen hyfforddi, mae ganddynt lawer o symbyliad a dangosant lefelau da o frwdfrydedd tuag at eu hyfforddiant. Mae dysgwyr yn ymddwyn yn dda ac yn gweithio'n dda gyda'u cyflogwyr, sy'n gefnogol iawn ohonynt. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi datblygu perthynas dda â'u haseswr a'u cyflogwr.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn gosod a chytuno ar dargedau asesu, ac mae aseswyr yn olrhain a monitro'r rhain yn fanwl. Mae dysgwyr yn dangos medrau cyfathrebu llafar da yn ystod trafodaethau gydag aseswyr, cyflogwyr a chwsmeriaid. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn cwblhau cymwysterau ychwanegol, fel hylendid bwyd, i ennill ystod ehangach o fedrau. Mae'r cymwysterau a'r wybodaeth ychwanegol hyn sy'n gysylltiedig â gwaith yn helpu dysgwyr yn eu rôl bresennol ac yn y dyfodol.

Mae mwyafrif o ddysgwyr yn chwarae rhan weithgar mewn digwyddiadau cymunedol ac elusennol a drefnir gan eu cyflogwyr. Mae'r rhain yn cynnwys codi arian ar gyfer parti Nadolig i bensiynwyr lleol.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwella'u medrau cyfathrebu a'u hunanhyder, ac yn datblygu medrau cymdeithasol da. Datblygant fedrau da o ran gweithio mewn tîm trwy ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol yn eu gweithle.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Da

Mae'r darparwr yn cyflwyno ystod dda o raglenni hyfforddi sy'n bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned ar draws Cymru. Cynigiant gyfleoedd da am ddilyniant o raglenni lefel 2 i lefel 3 ac, yn ddiweddar, maent wedi cyflwyno'r rhaglenni Prentisiaeth Uwch a Rhannu Prentisiaeth mewn lletygarwch. Mae'r darparwr yn gweithio'n effeithiol gyda chwmnïau rhyngwladol i gyflwyno rhaglenni hyfforddi sy'n cynnig cyfleoedd da i ddysgwyr ddatblygu eu gyrfa yn ystod eu hyfforddiant. Mae'r darparwr yn defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur yn effeithiol i ddatblygu rhaglenni mewn ymateb i anghenion diwydiant.

Mae aseswyr a thiwtoriaid yn defnyddio canlyniadau deilliannau asesiadau cychwynnol dysgwyr yn dda i gynllunio hyfforddiant a nodi anghenion cymorth ychwanegol dysgwyr unigol.

Mae gan y darparwr raglen glir ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd er mwyn gwella medrau dysgwyr. Mae'n defnyddio ystod dda o adnoddau dysgu electronig o ansawdd da drwy'r system 'wybodaeth' y mae dysgwyr a staff yn ei defnyddio. Fodd bynnag, nid yw hyfforddwyr ac aseswyr bob amser yn gwneud defnydd effeithiol o gyfleoedd sy'n digwydd yn naturiol i ddatblygu medrau dysgwyr, er enghraifft wrth adolygu gwaith ysgrifenedig a gwirio gramadeg, atalnodi a sillafu.

Mae hyfforddwyr ac aseswyr yn integreiddio Sgiliau Hanfodol i'r brif raglen astudio yn dda a gwna llawer o ddysgwyr gynnydd da wrth gyflawni'r cymwysterau hyn. Mae dysgwyr ar raglenni lefel 2 yn dilyn cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ar lefel uwch na gofyniad eu fframwaith fel y bo'n briodol i ateb eu gallu. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr ar y rhaglenni lefel 3 yn cael digon o gyfleoedd i ymestyn eu medrau i lefel uwch.

Mae'r darparwr yn gwneud cynnydd priodol yn datblygu gwybodaeth dysgwyr am y Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae cyflwyno'r llyfryn ar y Gymraeg ac 'ymadrodd y mis' yn adnoddau dysgu defnyddiol. Fodd bynnag, nid yw pob tiwtor ac aseswr yn gwneud defnydd effeithiol o'r adnoddau gwerthfawr hyn. Dim ond ychydig hyfforddwyr ac aseswyr sy'n rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu a gwella'u medrau Cymraeg yn llawn.

Mae'r darparwr yn hybu Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) yn dda. Mae dysgwyr yn cwblhau gwaith ar ADCDF yn ystod eu cyfnod sefydlu ac yn eu sesiynau galwedigaethol a'u sesiynau ar fedrau. Mae papur trafod 'pwnc y mis' yn ffordd effeithiol o herio ac ymestyn dealltwriaeth y dysgwyr o faterion cyfredol pwysig, fel cynhadledd Sefydliad Cytuniad Gogledd Iwerydd (NATO) a refferendwm yr Alban.

**Addysgu: Da**

Mae aseswyr a hyfforddwyr yn meddu ar wybodaeth dda am eu pwnc a phrofiad da mewn diwydiant. Defnyddiant y rhain yn dda i gynllunio eu sesiynau hyfforddi a rhoi lefelau da o gymorth personol i ddysgwyr. Gan amlaf, mae aseswyr yn defnyddio canlyniadau asesiadau cychwynnol yn dda i lywio cynllunio gweithgareddau hyfforddi. Mae hyfforddwyr medrau hanfodol yn rhoi cefnogaeth effeithiol i ddysgwyr y nodwyd bod angen cymorth ychwanegol arnynt â medrau llythrennedd mewn asesiadau cychwynnol.

Mae bron pob aseswr yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Mae aseswyr yn rhoi adborth llafar da i ddysgwyr ar ansawdd eu gwaith ysgrifenedig a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, mae ansawdd adborth ysgrifenedig aseswyr yn amrywio'n ormodol ac ni chaiff canllaw marcio'r darparwr ei ddefnyddio'n gyson gan bob aseswr.

Mae'r rhan fwyaf o aseswyr yn defnyddio ystod dda o ddulliau hyfforddi ac adnoddau yn effeithiol. Mae ystod gynhwysfawr o adnoddau dysgu ar gael i aseswyr a dysgwyr ar wefan y darparwr. Mae aseswyr yn ategu'r adnoddau hyn yn dda trwy ddefnyddio'u deunyddiau hyfforddi eu hunain i ategu arddulliau dysgu eu dysgwyr. Ym mwyafrif y sesiynau, mae'r cyflymder a lefel yr her yn dda. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o sesiynau, nid yw'r cyflymder yn caniatáu digon o amser i ddysgwyr fyfyrio ar eu dysgu nac i'r aseswr brofi dealltwriaeth dysgwyr o'r pwnc.

Mae aseswyr a hyfforddwyr yn trafod ADCDF gyda dysgwyr yn rheolaidd i ddatblygu a phrofi eu gwybodaeth. Gan amlaf, caiff ADCDF ei hintegreiddio'n dda i hyfforddiant a sesiynau adolygu cynnydd dysgwyr.

Mae aseswyr yn cynorthwyo dysgwyr yn dda fel y gallant wella'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth a chyflawni eu cymwysterau. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'u dysgwyr ac maent yn eu symbylu a'u hannog i lwyddo. Mae aseswyr yn annog dysgwyr i wella'u perfformiad a chytuno ar eu targedau ar gyfer gwella.

Mae'r rhan fwyaf o aseswyr yn defnyddio ystod briodol o dechnegau holi i brofi a gwirio gwybodaeth eu dysgwyr. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, nid ydynt yn defnyddio holi yn effeithiol i brofi dealltwriaeth a gwybodaeth dysgwyr.

Mae aseswyr yn cynnal adolygiadau rheolaidd er mwyn gwirio cynnydd dysgwyr a gosod targedau realistig a heriol ar gyfer gwella. Mae aseswyr yn cynllunio asesiadau'n dda ac yn gwneud yn siŵr bod dysgwyr yn elwa ar y cyfleoedd asesu da yn eu gweithle. Mae aseswyr yn cadw dogfennau olrhain manwl sy'n cofnodi'r cynnydd a wnaed gan ddysgwyr unigol a grwpiau o ddysgwyr yn effeithiol. Mae'r berthynas rhwng aseswyr, dysgwyr a chyflogwyr yn dda iawn. Caiff cyflogwyr eu cynnwys fel mater o drefn wrth gynllunio hyfforddiant a rhoddant gymorth da i ddysgwyr yn y gweithle.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r darparwr yn rhoi trefniadau da ar waith i hybu iechyd a lles ei ddysgwyr. Yn arolwg 2014 Llais y Dysgwr i Gymru, dywedodd 70% o ddysgwyr bod yr agwedd hon ar eu hyfforddiant yn dda iawn.

Mae rhaglen sefydlu gynhwysfawr sy'n darparu gwybodaeth hanfodol am ystod eang o bynciau gwaith a bywyd. Mae polisïau a gweithdrefnau clir, fel y rhai ar fwlio ac aflonyddu a'r defnydd diogel ar y cyfryngau cymdeithasol, yn cefnogi'r rhaglen yn dda. Gall dysgwyr fynd at adnoddau ar-lein defnyddiol yn hawdd, gan gynnwys adnoddau ar ddyled, straen a bwyta'n iach. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'r adnoddau hyn yn rheolaidd i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth ac i roi dealltwriaeth well iddynt o'r hyn i'w wneud os oes ganddynt broblem.

Mae'r darparwr yn gweithio'n effeithiol gyda chyflogwyr i hybu presenoldeb a phrydlondeb, sy'n dda at ei gilydd.

Caiff dysgwyr wybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd, o safon dda, drwy gydol eu rhaglen. Yn ddefnyddiol, mae'r darparwr wedi neilltuo aseswyr yn hyrwyddwyr cyngor ac arweiniad. Maent yn cyfeirio dysgwyr yn dda at fudiadau eraill i gael cymorth arbenigol pellach. Mae adnoddau dysgu ar-lein yn cynnig gwybodaeth ychwanegol ddefnyddiol am arweiniad gyrfaol ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol i sicrhau bod dysgwyr yn deall eu hawliau.

Mae'r darparwr yn hybu diwylliant o ddiogelwch yn llwyddiannus ac mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y gwaith. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith gan y darparwr i nodi dysgwyr agored i niwed yn fuan. Mae'n cyfeirio'r dysgwyr hyn yn gyflym at gyngor a chymorth arbenigol fel eu bod yn cael yr help y mae arnynt ei angen. Mae'r darparwr yn delio'n drylwyr â'r achosion prin iawn o fwlio.

Mae polisïau a gweithdrefnau diogelu clir ar waith.  Mae staff yn deall y rhain yn dda.  Mae swyddog diogelu dynodedig sydd wedi'i hyfforddi'n dda ac mae'r holl aseswyr yn cael hyfforddiant diogelu gorfodol fel rhan o'u cyfnod sefydlu.

Mae trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r darparwr yn talu sylw da i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.  Er enghraifft, mae wedi rhoi hyfforddiant 'Anogaeth Dysgu' i'w holl aseswyr.  Maent yn gweithio'n dda gyda dysgwyr a chyflogwyr i ddileu unrhyw rwystrau rhag dysgu.

Mae trefniadau effeithiol ar waith i sgrinio anghenion medrau hanfodol dysgwyr.  Os oes ei angen arnynt, mae dysgwyr yn cael cymorth ychwanegol da gan diwtoriaid medrau hanfodol ac mae dysgwyr Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) yn cael cymorth boddhaol.  O ganlyniad, mae mwyafrif o ddysgwyr sydd ag anghenion medrau hanfodol pan fyddant yn dechrau'r rhaglen yn mynd ymlaen i gyflawni eu cymhwyster.

**Amgylchedd dysgu:  Da**

Mae polisïau, gweithdrefnau a hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant effeithiol ar waith gan y darparwr trwy nifer o adnoddau ar-lein, ac mae dyfarnu'r Safon Buddsoddwr mewn Amrywiaeth wedi cydnabod hyn.  Caiff cyfrifoldebau eu diffinio'n glir ac mae'r holl staff yn manteisio ar gyfleoedd rheolaidd i ddiweddaru eu gwybodaeth drwy hyfforddiant gorfodol, sy'n cael ei fonitro'n drylwyr.  Mae'r holl staff newydd yn ymgymryd â hyfforddiant cynhwysfawr fel rhan o raglen sefydlu strwythuredig.

Mae Grŵp Amrywiaeth Strategol, a gefnogir gan adnoddau ar-lein cynhwysfawr, yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf ac yn datrys problemau.  Mae'r darparwr yn casglu, dadansoddi ac arfarnu data ar gydraddoldeb yn effeithiol i fonitro pa mor dda y mae dysgwyr o grwpiau lleiafrifol neu grwpiau agored i niwed yn gwneud cynnydd yn eu dysgu.  Mae dysgwyr yn dangos dealltwriaeth dda o'r gweithdrefnau cwyno ac apelio.

Mae'r darparwr yn defnyddio ystod dda o holiaduron ac arolygon i gael adborth gan ddysgwyr a'i bartneriaid.  Mae'n defnyddio'r adborth hwn yn dda i wella ansawdd yr hyfforddiant a phrofiad y dysgwr.

Er bod modiwl pwrpasol yn llawlyfr sefydlu'r dysgwyr ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, mae dealltwriaeth dysgwyr mewn lleiafrif o achosion yn gyfyngedig.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio mewn gweithleoedd o ansawdd da.  Mae'r amgylcheddau gwaith hyn yn cynnig cyfleoedd da i ddysgwyr ddatblygu eu medrau ymarferol a'u gwybodaeth am theori.  Maent yn elwa ar gymorth da gan oruchwylwyr yn y gweithle a chyflogwyr.  Mae gweithleoedd yn rhoi cyfleoedd da i ddysgwyr ymgymryd ag ystod dda o asesiadau ac i gwblhau tasgau sy'n perthyn i'r diwydiant.  Fodd bynnag, mewn ychydig achosion, cynhelir adolygiadau cynnydd a thrafodaethau rhwng dysgwyr a'u haseswyr mewn ardaloedd sy'n agored i'r cyhoedd, er enghraifft ardaloedd bar mewn gwestai a'r dderbynfa ac ardaloedd lluniaeth mewn campfeydd, lle y gall tarfu yn y cefndir fod yn rhwystr rhag cyfathrebu effeithiol ar adegau prysur.

Caiff aseswyr amrywiaeth gynhwysfawr o adnoddau, gan eu galluogi i roi lefelau da o gymorth i ddysgwyr.  Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys cyfrifiaduron, meddalwedd gyfrifiadurol arbenigol a chyfryngau recordio digidol.

| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Da**

Rheolwr rhanbarthol y darparwr sy'n gyfrifol am reoli'r contract dysgu yn y gwaith yng Nghymru.  Caiff gefnogaeth dda gan amrywiaeth o reolwyr sy'n rhoi cymorth a her effeithiol ynghylch perfformiad rhanbarth Cymru.  Mae'r uwch reolwyr hyn yn rhoi cyfeiriad ac arweiniad clir i'w staff.  Mae'r darparwr wedi sefydlu strwythur staffio sy'n nodi cyfrifoldebau'n glir, gyda llinellau atebolrwydd clir.  Mae'r holl staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda.  Mae'r darparwr yn defnyddio cyfres o werthoedd, nodau ac amcanion strategol sefydledig i gefnogi cyflawni'i gontract dysgu yn y gwaith.

Mae rheolwyr yn dangos dealltwriaeth gynhwysfawr a chlir o berfformiad y darparwr a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i sicrhau gwelliant.  Maent wedi datblygu strategaethau priodol a thargedau clir ar gyfer gwella profiad y dysgwyr yn barhaus.

Mae cyfathrebu ar draws y darparwr yn dda.  Mae'r rhan fwyaf o staff yn gweithio gartref a derbyniant ystod dda o wybodaeth am bob agwedd ar weithgareddau'r darparwr.  Mae rheolwyr yn defnyddio cyfarfodydd unigol rheolaidd gydag aseswyr a hyfforddwyr i fonitro perfformiad dysgwyr ac aseswyr yn drylwyr yn erbyn targedau.

Mae'r darparwr yn defnyddio data a gwybodaeth rheoli'n dda i fesur a herio pob agwedd ar berfformiad yn erbyn cyfres briodol o ddangosyddion perfformiad allweddol.  Mae rheolwyr yn casglu ac yn dadansoddi data ar berfformiad yn rheolaidd ac yn gwybod pa mor dda y maent yn perfformio o gymharu â'u targedau a darparwyr hyfforddiant eraill.

Mae'r darparwr yn defnyddio gweithdrefnau trylwyr ar gyfer rheoli perfformiad staff i adolygu perfformiad ei hyfforddwyr a'i aseswyr.  Mae'r staff hyfforddi'n cael lefelau da o gymorth gan reolwyr i'w helpu i wella'u perfformiad.  Caiff adolygiadau o berfformiad eu cysylltu'n briodol â gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae'r darparwr yn defnyddio ystod eang o dechnoleg gwybodaeth yn effeithiol i gyflwyno hyfforddiant ac i gasglu, dadansoddi ac adolygu gwybodaeth rheoli.  Mae rheolwyr ac aseswyr yn defnyddio'r dechnoleg hon yn dda i gasglu data cynhwysfawr a chadarn ynghylch cynllunio a monitro cynnydd dysgwyr.

Mae'r darparwr wedi ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant.  Mae'n cyfrannu'n dda at ystod eang o fentrau lleol a chenedlaethol.  Mae rheolwyr a staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys cynllun rhannu prentisiaeth y Gronfa Blaenoriaethau Sector a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru.

**Gwella ansawdd: Da**

At ei gilydd, mae gan y darparwr systemau ansawdd effeithiol sy'n ategu'r broses o fonitro perfformiad ac ysgogi gwelliant. Mae'r rhan fwyaf o systemau a gweithdrefnau yn fanwl a thrylwyr, ac maent yn cefnogi dysgwyr yn dda trwy eu rhaglen hyfforddi.

Mae'r darparwr wedi canolbwyntio ar feysydd allweddol sy'n cynnwys gwella cyfraddau cyflawniad mewn Lletygarwch ac Arlwyo, dysgwyr yn cyflawni medrau hanfodol ar lefelau uwch, a chynyddu cyfraddau cyflawni amserol. Mae'r holl feysydd hyn wedi dangos gwelliannau sylweddol. Fodd bynnag, mae perfformiad cyffredinol wedi parhau'n ddigonol am y tair blynedd diwethaf.

Mae'r darparwr wedi datblygu dull effeithiol o hunanasesu. Mae'r broses hunanasesu'n cynnwys yr holl staff ac yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth a safbwyntiau i lunio barnau cywir.

Mae'r adroddiad hunanasesu (AHA) yn gynhwysfawr, yn mynd i'r afael â gofynion y Fframwaith Arolygu Cyffredin ac yn nodi targedau ar gyfer y gwella yn dda. Mae'r AHA yn ddigon arfarnol mewn llawer o adrannau. Fodd bynnag, mae'r gair 'rhagorol' yn cael ei orddefnyddio wrth lunio barnau, nad yw'n adlewyrchu perfformiad y darparwr yn gywir. Mae'r AHA yn cysylltu'n dda â'r Cynllun Gwella Ansawdd, sy'n mynd i'r afael â meysydd i'w gwella. Mae'r cynlluniau gweithredu yn cynnwys targedau clir, uchelgeisiol a realistig. Mae'r darparwr yn monitro'r Cynllun Gwella Ansawdd yn briodol.

Mae nifer o brosesau systematig, strwythuredig yn cynorthwyo'r gwaith o adolygu ac arfarnu perfformiad staff. Mae'r darparwr yn dadansoddi'r canlyniadau o'r prosesau hyn yn dda i gynnig cymorth datblygu da a hyfforddiant priodol i staff. Fodd bynnag, nid oes system effeithiol ar waith gan y darparwr i fonitro effaith y broses hon ar wella ansawdd addysgu ac asesu.

Mae system y darparwr ar gyfer monitro ansawdd addysgu a dysgu yn cyfrannu'n dda at wella ansawdd addysgu a dysgu, rhannu arfer dda a nodi meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, nid yw cofnodion rhai arsylwadau yn cynnwys camau gweithredu glir ar gyfer gwella.

Mae'r darparwr yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gasglu gwybodaeth gan ddysgwyr, gan gynnwys holiadur Llais y Dysgwr a holiaduron mewnol manylach. At ei gilydd, mae'r darparwr yn defnyddio canlyniadau Llais y Dysgwr yn effeithiol. Mae'n perfformio uwchlaw'r trothwy dysgu yn y gwaith ym mron pob agwedd yn yr arolwg. Fodd bynnag, nid yw pob dysgwr yn ymwybodol o unrhyw welliannau neu gamau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad i arolwg Llais y Dysgwr.

Mae'r darparwr yn defnyddio amrywiaeth eang o gyfarfodydd yn dda i adolygu, arfarnu a gwella ansawdd y ddarpariaeth yn systematig. Mae'r cyfarfodydd yn cynnwys cyfarfodydd bwrdd cenedlaethol, cyfarfodydd timau rheolwyr rhanbarthol, cyfarfodydd timau ansawdd, cyfarfodydd staff, sesiynau datblygu staff, cyfarfodydd gwirio mewnol a chyfarfodydd safoni. At ei gilydd, mae ystod a strwythur y cyfarfodydd yn briodol i'r sefydliad ac yn darparu llinellau cyfathrebu effeithiol yn y sefydliad.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r darparwr wedi datblygu partneriaethau cadarn ac effeithiol ar lefel strategol a gweithredol gydag ystod eang o bartneriaid.  Mae'r partneriaethau hyn yn cynnwys cyflogwyr rhanbarthol a chenedlaethol, yn amrywio o gyrff rhyngwladol mawr i fentrau bach i ganolig.

Mae'r darparwr yn gweithio'n dda i ddatblygu lefelau uchel o ymddiriedaeth gyda phob sefydliad partner ac mae'n gweithio'n agos gyda chyflogwyr i ehangu cyfleoedd i ddysgwyr.  Maent wedi sefydlu nifer o raglenni hyfforddi wedi'u brandio ar y cyd yn llwyddiannus, sy'n bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a diwydiannau lleol yn dda. Mae'r rhaglenni hyn yn ymgorffori ethos a gwerthoedd y darparwr hyfforddiant a'r cyflogwyr yn effeithiol.

Mewn partneriaeth â chyflogwyr o'r diwydiannau lletygarwch ac adwerthu, mae'r darparwr wedi datblygu nifer o academïau hyfforddi yn llwyddiannus.  Mae'r academïau yn cael effaith gadarnhaol ar brofiad dysgwyr ac mae bron pob dysgwr yn y rhaglenni hyn yn datblygu lefelau uchel o fedrau technegol.  Mae'r academïau yn bodloni anghenion cyflogwyr yn dda, gan fynd i'r afael â bylchau o ran medrau, gwella lefelau cadw a chynnig cyfleoedd da iawn i ddysgwyr wneud cynnydd.

Mae cynrychiolaeth gref gan y darparwr mewn digwyddiadau rhwydweithio proffesiynol ac mae'n aelod o nifer o grwpiau llywio.  Mae'r rhain yn gweithio'n dda gyda darparwyr hyfforddiant eraill wrth rannu arfer orau, ac mae darparwyr wedi gwella'u harferion gweithio o ganlyniad i'r cydweithrediadau hyn.  Ar hyn o bryd, maent yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru ar nifer o fentrau gan gynnwys 'gwelliant darbodus', y prosiect lleihau gwaith papur a datblygu'r ganolfan lles dysgu yn y gwaith.

Mae'r darparwr wedi gweithio ar nifer o brosiectau i gyflwyno a datblygu hyfforddiant ar flaenoriaethau cenedlaethol a gyrwyr strategol allweddol, gan gynnwys rhaglen gyflogadwyedd yn gweithio ochr yn ochr ag Ymddiriedolaeth y Tywysog.

Mae partneriaethau gyda Chynghorau Sgiliau Sector yn effeithiol a datblygedig iawn. O ganlyniad, mae'r darparwr hyfforddiant wrthi'n cyflwyno dwy raglen brentisiaeth newydd fel rhan o Raglenni Peilot y Gronfa Blaenoriaethau Sector.  Mae'r prentisiaethau hyn yn ymateb yn dda i brinderau medrau mewn diwydiant ac yn gwella'r cyfleoedd am waith yn y diwydiannau hamdden a lletygarwch.

Mae'r darparwr yn gweithio'n effeithiol gyda Gyrfa Cymru, colegau addysg bellach, ysgolion a chyrff hyfforddi eraill i hybu a chodi ymwybyddiaeth o lwybrau dysgu galwedigaethol yn y gwaith, sydd ar gael i ddysgwyr 14 i 19 oed.

Mae gweithdrefn weithredu a fframwaith sicrhau ansawdd y darparwr yn dangos dull cynhwysfawr a chyson o weithio mewn partneriaeth a chyflwyno cymwysterau.  Mae'r darparwr yn gweithio'n effeithiol gyda chyflogwyr i gytuno ar y fframweithiau mwyaf addas ar gyfer cyflwyno ac adolygu'r rhain yn rheolaidd.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan y darparwr strwythur gweithredu diffiniedig yng Nghymru ac sy'n cael ei gefnogi'n dda gan swyddogaethau arbenigol cenedlaethol sy'n gwella ansawdd ac effeithiolrwydd yr holl raglenni hyfforddiant.

Mae'r darparwr yn defnyddio data dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) yn dda, gan ddadansoddi perfformiad yn fanwl a'i fonitro yn erbyn perfformiad darparwyr eraill. Mae hyn yn cynnwys perfformiad ariannol misol, cyfraddau cwblhau yn ôl maes dysgu, cymarebau staff a dysgwyr, a lefelau perfformiad allweddol staff yn erbyn targedau. Caiff yr adroddiadau hyn eu defnyddio'n effeithiol i adolygu ffocws a dyraniad adnoddau, prosesau a gweithdrefnau, i sicrhau eu bod yn parhau i fodloni anghenion dysgwyr ac aseswyr yn llawn.

Mae gan y darparwr bolisi clir a strwythuredig ar recriwtio a datblygu staff ar gyfer adnoddau dynol, sy'n sicrhau bod ymgeiswyr sy'n cael eu cynnwys ar restrau byr yn cael profion i fesur safonau llythrennedd a rhifedd. Efallai na fydd unrhyw ddiffyg yn y maes hwn yn eu hatal rhag cael cyfweliad neu waith os oes cyfatebiaeth gadarnhaol o ran eu medrau, ond bydd yn amlygu angen am hyfforddiant ar unwaith. Mae'r darparwr yn cynnal cynllun mentora effeithiol i staff newydd. Mae rheolwyr llinell yn aml yn mynd gyda staff newydd i asesiadau ac adolygiadau.

Mae'r darparwr yn defnyddio rhaglen sefydlu drylwyr a chynhwysfawr ar gyfer yr holl staff newydd. Mae hyn yn cynnwys nifer o e-fodiwlau sy'n ymdrin â phynciau gorfodol y mae angen i staff newydd eu cwblhau cyn y byddant yn weithgar yn eu rôl newydd. Yn y rhaglen sefydlu, caiff hyfforddiant iechyd a diogelwch ei gyflwyno yng nghyd-destun gweithio ar eich pen eich hun. Mae'r rhaglen sefydlu wedi'i theilwra fel y bo'n addas i anghenion aseswyr unigol. Mae gan y darparwr amrywiaeth gynhwysfawr o ddeunyddiau adnoddau dysgu ar-lein o safon uchel. Mae'r 'Big Learn', sy'n cynnwys yr holl fodiwlau sefydlu gorfodol, gan gynnwys iechyd a diogelwch, lles a diogelu, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, yn adnodd arbennig o gynhwysfawr. Ar hyn o bryd, nid yw holl ddogfennau a deunyddiau hyrwyddo'r darparwr ar gael yn ddwyieithog.

Mae bron yr holl staff asesu wedi cwblhau hyfforddiant ar ymgorffori'r Gymraeg wrth gyflawni eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf wedi cwblhau'r cymhwyster paratoi i addysgu yn y sector dysgu gydol oes ac mae tua hanner wedi cwblhau dyfarniad Ymarferwyr Sgiliau Hanfodol lefel 3, gyda nifer debyg wedi cwblhau Tystysgrif mewn Addysg a Hyfforddiant lefel 4. Ar hyn o bryd, mae nifer sylweddol o hyfforddwyr ac aseswyr yn cael eu hyfforddi'n anogwyr dysgu. Gall staff fanteisio'n dda ar amrywiaeth eang o gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae'r deilliannau digonol i ddysgwyr yn golygu bod y darparwr yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Boddhad dysgwyr**

Rydym yn defnyddio deilliannau arolwg Llais y Dysgwr Llywodraeth Cymru i lywio ein holl arolygiadau addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae Llais y Dysgwr yn arolwg o foddhad dysgwyr a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru rhwng Ionawr a Chwefror 2014.

Mae'r arolwg yn gofyn amrywiaeth o gwestiynau i ddysgwyr ar y themâu allweddol canlynol:

- y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth a ddarperir iddynt;
- pa mor ymatebol yw'r darparwr, yr amgylchedd dysgu a lles myfyrwyr;
- ansawdd yr addysgu a'r hyfforddi; a
- boddhad cyffredinol.

Mae pob thema'n cynnwys amrywiaeth o gwestiynau sy'n gofyn i ddysgwyr raddio perfformiad eu darparwr. Mae 28 o gwestiynau yn gyfan gwbl.

Cwblhaodd pedwar cant a deg o ddysgwyr yr arolwg.

Dywedodd saith deg pump y cant o ymatebwyr fod eu darparwr yn dda iawn at ei gilydd. Mae hyn 13 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd y sector, sef 62%. Dywedodd 23% arall fod y darparwr yn dda at ei gilydd. Roedd pum deg un y cant o ymatebwyr o'r farn bod eu cwrs yn well na'r disgwyl. Mae hyn uwchlaw cyfartaledd y sector. Cyflawnodd y darparwr sgorau uwch na chyfartaledd y sector ar gyfer graddfeydd da iawn ym mhob un o bum thema'r arolwg. O ran y thema iechyd a lles, roedd dysgwyr o'r farn bod y darparwr 14 pwynt canran uwchlaw cyfartaledd y sector, sef 45%.

Mae'r darparwr yn cyflawni graddfeydd 'da iawn' sydd uwchlaw cyfartaledd y sector yn y rhan fwyaf o'r 28 cwestiwn yn yr arolwg. At ei gilydd, roedd 99% o ymatebwyr yn ystyried bod yr addysgu a'r hyfforddi yn 'dda iawn' neu'n 'dda'.

Hefyd, mae'r arolwg yn dadansoddi ymatebion dysgwyr yn ôl gwybodaeth ddemograffig, rhyw, oedran, ethnigrwydd ac anabledd. Yn gyffredinol, mae'r darparwr yn cyflawni graddfeydd 'da iawn' uwch na chyfartaledd y sector ar draws pob un ond un o'r agweddau demograffig allweddol ar gyfer pob cwestiwn.

# Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mark Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Stephen Davies | Arolygydd Tîm |
| Bernard Hayward | Arolygydd Tîm |
| Rachael Bubalo | Arolygydd Tîm |
| Vanessa Morgan | Arolygydd Tîm |
| David Gordon-Cranmer | Arolygydd Cymheiriaid |
| Jennie Hire | Arolygydd Cymheiriaid |
| Paul Robinson | Arolygydd Cymheiriaid |
| Alma Noelle Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Sharon James | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mike Kent | Enwebai |